

Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llandyfaelog

Blwyddyn Ddinesig 2020-21

Cyflwyniad

<p>Amlinelliad o'r Cyngor</p> <p>Syniad o'r hyn y gellid ei gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nifer ac enwau'r cynghorwyr• Enw'r Maer/Arweinydd• Enw clerig a'r swyddogion• Ardal ddaearyddol y Cyngor• Nifer y trigolion a gynrychiolir• Unrhyw wybodaeth berthnasol arall	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn cynnwys 11 o Gynghorwyr. Y Cynghorydd Meinir James yw'r Cadeirydd ar gyfer flwyddyn 2020-21.</p> <p>Mae ardal Gymuned Llandyfaelog yn cynnwys ardal eang o gyrion Caerfyrddin i Gydweli, gan gynnwys pentrefi Bancycapel, Croesyceiliog, Cwmffrwd, Idole, Llandyfaelog a Phentrepoeth. Darparodd Cyfrifiad 2011 boblogaeth yn y Gymuned o 1,304.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cyflogi Cleric rhan-amser, Arfon Davies ac Atgyweiriwr a Glanheuwyr Arosfan Bysiau Hunangyflogedig. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynnwys, ardal chwarae / cae chwarae, gerddi hamdden gymunedol, llochesi fysiau, hysbysfyrddau, meinciau a goleuadau cyhoeddus.</p> <p>Mae praesept y Cyngor yn 2020-21 yn £23,000. Mae'r Cyngor yn teimlo bod deddf Lles cenedlaethau'r dyfodol yn berthnasol i'n Cymuned ac felly mae wedi penderfynu darparu adroddiad ar ei weithgareddau mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn neddf Lles ac Aseiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.</p>
<p>Beth yw gweledigaeth/amcanion y Cyngor?</p>	<p>Gweledigaeth Cyngor Cymuned Llandyfaelog fel lefel agosaf o lywodraeth i'r Gymuned yw darparu llais i'r Gymuned ac i gynrychioli'r ardal ar lefel Sir a Chenedlaethol. Rydym yn gweithio'n agos gydag Aelod Ward y Cyngor Sir i sicrhau bod y Cyngor Sir, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill yn ystyried anghenion ein Cymuned wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein trigolion. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r pwerau a'r adnoddau sydd ar gael iddo i ymateb yn rhagweithiol ac yn gyflym i anghenion y Gymuned a darparu lefelau priodol o wasanaethau berthnasol i'n Cymuned.</p>

<p>Sut y mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn ei gynlluniau a'i drefniadau gweithio?</p>	<p>Y Tymor Hir Y pwysigrwydd o gydbwysio anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.</p>	<p>Cynhaliodd Cyngor Cymuned Llandyfaelog Ymgynghoriad Cymunedol yn 2010 a oedd yn darparu ar gyfer camau tymor byr, tymor canolig a hir i'w cynnal yn y Gymuned. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r ddogfen hon fel cynllun gweithredu ar gyfer cynllunio y camau sydd eu hangen o fewn y Gymuned yn y tymor hir.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig nesaf ym mis Ionawr ac yn sicrhau bod adnoddau ar gael o'r praesept a'r cronfeydd wrth gefn er mwyn gweithredu'r gwaith a nodwyd.</p>
	<p>Atal Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.</p>	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn cydweithio'n agos â thrigolion lleol, y Cyngor Sir, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill i nodi eitemau sydd yn codi pryder a gweithredu'r camau sydd eu hangen i atal problemau rhag gwaethygu. Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn trafod eitemau sy'n codi pryder yn ei gyfarfodydd misol ac yn ymgyrchu dros gamau gweithredu brys, neu yn ariannu'n uniongyrchol y camau sydd angen. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgyrchu dros welliannau diogelwch ar y ffyrdd yn y Gymuned lle mynegir pryderon er enghraifft yn Bancycapel, Cwmffrwd a Llandyfaelog.</p>
	<p>Integreiddio Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn ystyried nodau lles yn ei holl weithgareddau i sicrhau bod y nodau wedi'u cynnwys yn yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.</p> <p>Lle mae angen gweithredu gan gyrff eraill, mae'r Cyngor yn ceisio atebion gyda'r sefydliadau hyn sy'n gweithredu'r nodau yn y gwelliannau sydd eu hangen.</p>
	<p>Cydweithio Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.</p>	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog a'i staff wedi ymrwymo i weithredu nodau ac amcanion lles yn ei holl weithgareddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn parhau i ymdrechu i wella'r gwasanaethau a ddarperir wrth sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn ffordd sy'n gyson â'r nodau. Mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Cyngor Sir, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru a chyrrff perthnasol eraill a thrigolion lleol er mwyn sicrhau bod y nodau lles yn cael eu gweithredu ar draws y Gymuned a bod pob preswlydd yn elwa ohonynt.</p>

	<p>Cynnwys</p> <p>Y pwysigrwydd o gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y corff.</p>	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn gweithio'n agos gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion o fewn y Gymuned fel Sioe Llandyfaelog, Clwb Ffermwyr Ifanc Llanismel, Eisteddfod Llandyfaelog, WI, Merched y Wawr a mudiad ad hoc arall i sicrhau bod gweithgareddau a gwasanaethau'r Cyngor yn adlewyrchu'r ardal a wasanaethir gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu cylchlythyr chwarterol (nid ydi wedi cael eu gyhoeddi yn 2020-21 oherwydd y pandemig COVID), hysbysfyrddau, a pan yn briodol yn anfon llythyron uniongyrchol i gynnwys y Gymuned yn broses benderfynu'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi uwchraddio ei wefan yn 2020-21 er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i'r holl breswylwyr. Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog hefyd yn penodi llywodraethwyr ysgol a chynrychiolwyr i grwpiau fel Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru, Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Sir Gaerfyrddin gyda'r Cyngor Sir.</p>
<p>Pa ddull y mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ef i ymgorffori pedwar amcan llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gynlluniau?</p> <p>Arferion Iach Mae gan bobl ansawdd bywyd da, maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.</p> <p>Ymyrraeth gynnar Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fydd ei angen arnynt.</p> <p>Cysylltiadau Cryf Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf rhyngddynt ac sy'n gallu addasu i newid.</p> <p>Pobl a Lleoedd Ffyniannus</p>	<p>Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog wedi cynnwys y pedwar amcan a nodau lles BGC a Chenedlaethol yn ei gynlluniau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu ar gyfer gwasanaethau yn y Gymuned sy'n annog ffyrdd o fyw iachus: <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r Cyngor yn darparu ardal chwarae a maes chwarae yn Idole. Yn 2020-21 gweithredodd y Cyngor Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 gan wneud yr Ardal Chwarae yn ardal ddi-fwg fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf. 2. Mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr gwarchod yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog ac wedi rhannol ariannu'r ardal chwarae newydd a agorwyd yn 2018 ac mae'n darparu trwy Glerc y Cyngor, Ysgrifennydd y Pwyllgor. 3. Mae'r Cyngor yn darparu mannau hamdden / gerddi i drigolion ym Mancycapel, Cwmffrwd, Idole, Glanmorlais a Llandyfaelog. 4. Mae'r Cyngor yn darparu nifer o feinciau ar draws yr ardal mewn pwyntiau sy'n annog cerdded a beicio. • Darparu cyllid ar gyfer sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau o fewn y Gymuned. 	

Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.

Pa ddull y mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ef i ymgorffori'r nodau llesiant cenedlaethol yn ei gynlluniau?

- Darparu Cystadleuaeth Gardd Gymunedol flynyddol. Nid oedd hyn yn bosibl yn 2020-21 oherwydd pandemig COVID.
- Darparu Blychau Blodau ym mhob arwydd enw pentref sy'n darparu blodau o gwmpas y Gymuned.
- Gweithio gyda Phwyllgor Neuadd Llandyfaelog yn ariannu'r cyfleuster a gweithgareddau fel y digwyddiad Coeden Nadolig.
- Gweithredu gwasanaethau ychwanegol o fewn y Gymuned fel diffibrilwyr.
- Gweithio gyda'r Cyngorydd Sir, y Cyngor Sir, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru a sefydliadau fel Un Llais Cymru i wella'r gwasanaethau sydd ar gael i'r Gymuned.
- Mae'r Gymuned wedi'i chysylltu'n gryf trwy ddarparu 9 hysbysfwrdd, cylchlythyr chwarterol (ar gael trwy e-bost ac ar y wefan) a gwefan.
- Gall trigolion a sefydliadau lleol ddibynnu ar y Cyngor Cymuned am gymorth a chynghor pan fydd angen.
- Mae'r Cyngor yn darparu pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gymuned ac yn gweithredu camau i ddarparu ymyriadau cynnar lle mae hynny'n bosibl neu'n cynrychioli'r Gymuned i gyrff eraill pan bod angen.

Adroddiad o'r camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed

Amcan Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin	Camau i'w cymryd gan y Cyngor Tref/Cymuned sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant	Cynnydd <i>Beth ydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn?</i> <i>Sut ydych chi'n olrhain y cynnydd?</i> <i>Pa mor effeithiol fuoch chi? (Statws Coch, Melyn, Gwyrdd)</i> <i>Beth yw'r gwelliant ar gyfer gwahanol gymunedau?</i>
Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd	Darparu ardal chwarae a maes chwarae yn Idole	Wedi'i gwblhau
	Gweithio mewn cydweithrediad â phreswlydd lleol i ddarparu offer chwarae hygyrch i blant anabl yn Idole	Wedi'i gwblhau
	Ymgyrch i gwblhau llwybr troed o Pibwrlwyd i Idole	Yn barhau
	Gweithio gyda awdurdodau'r Cyngor Sir a'r Llwybr Arfordirol i wella llwybrau troed yn y Gymuned	Yn barhau
	Gwelliannau draenio ar gyfer cae chwarae Idole	Wedi'i gwblhau
	Darparu meinciau ychwanegol yn y Gymuned mewn cydweithrediad â phreswlydd lleol	Wedi'i gwblhau
	Darparu diffibrilwyr yn y Gymuned mewn partneriaeth â'r grŵp codi arian lleol. Trefnu cynnal a chadw'r cyfarpar. Trefnu hyfforddiant cymunedol ar ddefnyddio'r offer.	Wedi'i gwblhau
Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt	Ymgyrch i wella pwyntiau croesi ar draws yr A484 yng Nghwmffrwd a Llandyfaelog.	Yn barhau
	Ymgyrch i wella diogelwch ar y ffyrdd ar y B4309 ym Mancycapel.	Yn barhau
	Cyfrannu tuag at gost darparu arwydd adborth gyrwyr ychwanegol ar yr A484 yng Nghwmffrwd.	Wedi'i gwblhau
	Darparu uwchraddiad LED i oleuadau cyhoeddus mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin	Wedi'i gwblhau
	Cymorth Ariannol i Gynllun Blwch Teganau a gwrth tloidi Nadolig Sir Gaerfyrddin	Wedi'i gwblhau
	Adolygiad blynyddol o ddarpariaeth goleuadau cyhoeddus.	Yn barhau
	Darparu a cynnal a chadw diffibrilwyr yn y Gymuned mewn partneriaeth â'r grŵp codi arian lleol.	Yn barhau
Cymorth Ariannol i Ambiwylans Awyr Cymru, Tenovus, Marie Curie.	Wedi'i gwblhau	

Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid	Ymgyrch i gwblhau llwybr troed o Pibwrlwyd i Idole	Yn barhau
	Ymgyrch i wella pwyntiau croesi ar draws yr A484 yng Nghwmffrwd a Llandyfaelog.	Yn barhau
	Gwella'r cylchlythyr chwarterol yn barhaus	Dim yn bosibl yn 2020-21
	Uwchraddio Gwefan Gymunedol i ddarparu gwell hygyrchedd	Wedi'i gwblhau
	Darparu hysbysfyrddau newydd yng Nghwmffrwd, Idole a Llandyfaelog	Wedi'i gwblhau
	Oherwydd y pandemig mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn 2020-21 wedi'u cynnal ar-lein	Yn barhau
Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd	Cystadleuaeth Gardd Gymunedol Flynyddol a gynhelir ar draws yr ardal sy'n annog tyfu blodau a llysiau i ysgogi balchder yn yr ardal leol.	Dim yn bosibl yn 2020-21
	Darparu blychau blodau ar gyfer pob arwydd pentref	Yn barhau
	Gosod gardd pili pala yn Gae Idole gyda Chadw Cymru'n Daclus a Chynllun Lleoedd Natur Leol	Wedi'i gwblhau
	Wedi gweithio gyda'r SyM ar brosiect plannu coed ar gyfer cae Idole.	I'w gwblhau ym mis Mawrth 2020
	Cefnogaeth ariannol i sefydliadau megis Neuadd Gymunedol Llandyfaelog, Sioe Llandyfaelog, Clwb Ffermwyr Ifanc Llanismel, Eisteddfod Llandyfaelog	Yn barhau

Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Gweithgaredd arall y mae'r Cyngor Tref/Cymuned yn ei wneud sy'n cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol

Nod Cenedlaethol	Gweithgaredd Lleol
<p>Cymru lewyrchus: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p>	<p>Fel uchod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn cadw darpariaeth gyllidebol ar gyfer gweithgareddau gwella cymunedol. • Mae'r Cyngor yn cynnal gwefan gyfoes sy'n agored i'r Gymuned er mwyn cyfnewid gwytodaeth.
<p>Cymru gydnerth: Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid</p>	<p>Fel uchod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn darparu ardaloedd gwyrdd ar draws y Gymuned ac mae'n galluogi'r ardaloedd hyn dyfu mewn ffordd sy'n cefnogi bioamrywiaeth. • Mae'r Cyngor wedi darparu planhigion o fewn ei holl ardaloedd gwyrdd sy'n cefnogi beillwyr. • Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Datblygu'r Amgylchedd sy'n nodi sut mae ei weithgareddau a'i bolisiau yn cefnogi'r Fioamrywiaeth Gymunedol a'r Amgylchedd
<p>Cymru iachach: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol</p>	<p>Fel uchod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ardal chwarae y Cyngor Cymuned yn Idole yn cynnwys darn o offer chwarae i blant ag anableddau.
<p>Cymru sy'n fwy cyfartal: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p>	<p>Fel uchod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn parhau i chwilio atebion arloesol i faterion diogelwch ar y ffyrdd a phroblemau mynediad er mwyn sicrhau bod pob preswlydd yn gallu cael mynediad i wasanaethau. • Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i gwblhau'r llwybr troed o Pibwrlwyd i Idole a fydd yn gwella mynediad at wasanaethau i breswylwyr i Gaerfyrddin.
<p>Cymru o gymunedau cydlynus: Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</p>	<p>Fel uchod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i gwblhau'r llwybr troed o Pibwrlwyd i Idole a fydd yn gwella mynediad at wasanaethau i breswylwyr i Gaerfyrddin.

Nod Cenedlaethol	Gweithgaredd Lleol
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Ile mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud pethau gwahanol a lle y gall llawer o bobl siarad Cymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir holl weithgareddau'r Cyngor Cymuned i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i Neuadd Gymunedol Llandyfaelog, Eisteddfod Llandyfaelog, CFFI Llanismel maent i gyd yn darparu cyfleoedd yn y Gymuned i Siaradwyr Cymraeg. • Mae'r Cyngor wedi darparu paneli hanes lleol ar draws y Gymuned i hyrwyddo hanes a diwylliant yr ardal trwy hanes ei adeiladau. Mae'r 3 paneli yn cynnwys mapiau wedi'u tynnu â llaw o'r ardal.
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang: Ile rydym yn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y byd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn darparu ardaloedd gwyrdd ar draws y Gymuned ac mae'n galluogi'r ardaloedd hyn dyfu mewn ffordd sy'n cefnogi bioamrywiaeth. • Mae'r Cyngor wedi darparu planhigion o fewn ei holl ardaloedd gwyrdd sy'n cefnogi beillwyr. • Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Datblygu'r Amgylchedd sy'n nodi sut mae ei weithgareddau a'i bolisiau yn cefnogi'r Fioamrywiaeth Gymunedol a'r Amgylchedd

Gweithredu'r Ddeddf

Cyfle i fyfrio ar sut y mae pethau'n mynd.

Pa gyfleoedd y mae'r Cyngor wedi dod ar eu traws a sut yr aethpwyd ati i wneud y defnydd gorau o'r rhain?	Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud gwelliannau. Bydd y Cyngor yn parhau i geisio atebion arloesol i alluogi gwelliannau i ddiogelwch ar y ffyrdd yn y Gymuned.
A yw'r Cyngor wedi wynebu unrhyw rwystrau ac, os felly, pa gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd/yn cael eu cymryd i oresgyn y rhain?	Mae pandemig COVID wedi cwtogi ar weithgareddau'r Cyngor yn ystod 2020-21. Mae'r pandemig a'r diffyg cyllid sydd ar gael ar gyfer gwelliannau ffyrdd angenrheidiol wedi bod yn rhwystr sylweddol i'r Cyngor medru gweithredu newid yn yr ardal.
Pa heriau y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu a pha fesurau sydd ar waith i oresgyn y rhwystrau hynny?	Mae pandemig COVID wedi gwneud gweithredu gwelliannau gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â goleuadau cyhoeddus a phriffyrdd yn anoddach.
A oes unrhyw faterion y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cefnogi o ran eu cyflawni / sicrhau cynnydd?	